

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2022 6.00 y h., 13eg o DACHWEDD 2022,
GWESTY ROYAL OAK, BETWS Y COED.

1. Croeso

Estynnodd Dwynwen Pennant, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i Gwyn Williams (Llanrwst) am arwain y daith yn ysod y dydd.

Cyfeiriodd at y ffaith fod ei gadeiryddiaeth yn dod i ben yn y cyfarfod hwn a diolchodd Dwynwen i'r aelodau am yr anrhydedd o gael arwain y Clwb a oedd ganddi gymaint o feddwl ohonno. Mynegodd ei gwerthfawrogiad o gefnogaeth y swyddogion a aelodau'r pwyllgor oedd wedi bod yn gefn iddi ar gyfnodau anodd ar adegau ac aeth dros rhai o'r uchafbwyntiau o'i chyfnod yn y gadair. Dymunodd yn dda i Steve a fyddai'n cymryd drosodd y gadair heno.

Ar ran y Pwyllgor ac aelodau'r Clwb, diolchodd Steve, cadeirydd newydd y Clwb i Dwynwen am ei wasanaeth fel cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf ac fe roddwyd rhodd fechan iddi fel cydnabyddiaeth o'i chyfraniad.

2. Ethol Cadeirydd 2022 - 2024

Etholwyd Stephen Williams yn Gadeirydd y Clwb am y cyfnod 2022 - 2024

Dywedodd Steve ei fod yn yn gwerthfawriogi yn fawr y fraint o gael ei ethol yn gadeirydd y Clwb. Roedd wedi cael pleser a mwynhad o fynyachu teithau'r Clwb dros y blynyddoedd Roedd yn ei swydd yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd wedi arfer annerch plant a phobl ifanc ond roedd yn ei weld yn llawer anoddach annerch llond ystafell o oedolion! Roedd yn gobeithio y byddai yn ei gyfnod fel Cadeirydd yn gallu parhau gyda'r gwaith o annog aelodau iau i ymuno a'r Clwb ac i gymryd rhan yn ei weithgareddau. Yn sgil hynny roedd croesawodd y ffaith fod Ariannell a Gethin wedi cytuno i wasanaethau ar y Pwyllgor eleni.

3. Ymddiheuriadau :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Alun Roberts

4. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021 a gynhaliwyd ar 13eg Tachwedd, 2021 yng Ngwesty Oakley Arms, Maentwrog fel rhai cywir.

5. Adroddiad y Trysorydd.

A. Cyflwynwyd adroddiad a datganiad ariannol ar gyfer 2021/2022 gan Dilys.

Adroddwyd

- i. bod nifer yr aelodau eleni yn 287
- ii. roedd y taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn £20.25 yr aelod tan Ebrill 2022 ac yn £21 wedi hynny. Byddai'n cynyddu i £22.25 ar 1 Ionawr 2023.
- iii. roedd gan y Clwb £4893.42 yn y banc a oedd yn cynnwys Cronfa Goffa Gareth Pierce (£881.41) a chronfa gyffredinol o £4012.01. Roedd y gronfa gyffredinol £2745.14 yn is nag oedd ar yr un adeg llynedd a pwysleisiodd yr angen i'r Clwb gadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy'n mynychu) ac hefyd i warchod yn erbyn gwariant annisgwyl.
- iv. yng nghyfarfod blynyddol llynedd penderfynwyd cynyddu'r tâl aelodaeth o £20 i £25 y pen o Ionawr 2023 ymlaen. Dywedodd er gwaetha'r hinsawdd economaidd bresennol roedd yn rhaid gweithredu ar y penderfyniad yma oherwydd y codiad yn y taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig a'r gostyngiad yn y gronfa gyffredinol wrth gefn.
- v. diolchodd i George Jones am ei waith yn archwilio cyfrifon y Clwb

Cytunwyd derbyn yr adroddiad a'r cyfrifon ar gyfer 2021/2022

6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd lolo y cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn sef yn mis Ionawr, Mai a Medi ac fel y llynedd fe'u cynhaliwyd i gyd drwy gyfrwng Zoom. Roedd y drefn o ddefnyddio Zoom i gynnal y cyfarfodydd yn gweithio'n dda ac yn caniatáu i aelodau sy'n byw ym mhob rhan o Gymru gan gynnwys lolo ap Gwynn yn ardal Aberystwyth a Dewi Hughes yng Nghaerdydd ymuno â'r cyfarfodydd yn eitha rhwydd.

Un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor oedd cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb ac fe dderbyniwyd diweddariad gan y Trysorydd ym mhob cyfarfod. Ym mis Mai ystyriwyd y posibilrwydd o newid cyfrif Banc y Clwb o HSBC i fanc arall yn deillio o benderfyniad y banc hwnnw i ddechrau codi tâl am drafodion. Ar ôl ystyried y mater penderfyniad y Pwyllgor oedd y dylid aros efo HSBC. Hefyd fe ystyriwyd os y gellid derbyn taliadau i gyfrif banc y Clwb trwy ddebyd uniongyrchol a fyddai'n gwneud y trefniadau gweinyddol yn fwy rhwydd. Wedi i'r Trysorydd ymchwilio i hyn fe welwyd y byddai'n rhaid defnyddio asiant i weithredu'r drefn ar ein rhan. Cafodd wybodaeth am nifer o gwmnïau ond nid oedd unrhyw un yn cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Penderfyniad y Pwyllgor felly oedd y byddai i'r Clwb weithredu unrhyw drefn o ddefnyddio debyd uniongyrchol drwy gyfrwng y Saesneg yn groes i egwyddorion sylfaenol y Clwb ac na fyddai gwneud hynny yn dderbyniol.

Cyfeiriodd at y penderfyniad yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd i gynyddu tâl aelodaeth y Clwb i £25 o Ionawr 2023 ac fe amlinellwyd y rhesymau am hynny.

Ym mis Mai ymunodd Sian Williams, Swyddog Gwirfoddoli y Bartneriaeth Awyr Agored â chyfarfod y Pwyllgor i roi cyflwyniad byr i'r aelodau am newidiadau yn y ffordd y bydd y Bartneriaeth yn gweithredu yn y dyfodol.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Nhregaron, y gyntaf ers y clo. Roedd Dwynwen wedi trefnu i Garadog Jones roi Darlith Goffa Llew Gwent ar gyfer Eisteddfod 2020 ac felly wedi hir ddisgwyl llwyddwyd i'w chynnal eleni. Teitl y ddarlith oedd "Elfen am Antur" ac roedd yn hynod o lwyddiannus gyda Phabell y Cymdeithasau yn orlawn ar ei chyfer. Diolch yn fawr i Dwynwen am yr holl waith trefnu. Hefyd fe gynhaliwyd taith goffa Gareth Pierce gan y Clwb yn

ystod wythnos yr Eisteddfod gyda 44 yn ymuno â thaith “Llynnoedd Teifi” ar y 3ydd o Awst dan arweiniad Dafydd Pugh Jones.

Roedd yn dda gweld hefyd fod y Clwb wedi ail afael ar drefnu ymweliadau â'r Alban ar ôl y cyfnodau clo ac fe gafwyd dau ymweliad llwyddiannus eleni yn ystod mis Chwefror a mis Mai.

Derbyniwyd yr adroddiad

7. Adroddiad Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Nododd Eryl mai dyma'r degfed adroddiad iddo ei gyflwyno ac, fel y nododd llynedd dyma fyddai'r tro olaf gan ei fod am ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Gweithgareddau. Roedd gwneud y gwaith wedi bod yn brofiad braf dros ben gan ei fod ynghlwm â holl bwmpas bodolaeth y clwb o drefnu gweithgareddau ar y mynydd a bu'n fodd i ddod i adnabod a chadw cysylltiad â'n haelodau ledled Cymru – a thu hwnt o ran hynny.

Diolchodd i bawb oedd wedi bod yn barod i drefnu ac arwain teithiau, gan gynnwys amryw yn gwneud hynny am y tro cyntaf. Diolch i chi i gyd am eich cydweithrediad tros y flwyddyn ddiwethaf ac, yn wir, tros y ddegawd a aeth heibio. Diolchodd hefyd i'w gyd-swyddogion ac aelodau'r pwyllgor; roeddem yn ffodus dros ben fel clwb o gael pobl mor ymroddedig i gymryd yr awenau. Roedd sawl Cadeirydd wedi mynd a dod a phob un wedi cynnig arweiniad doeth a chytbwys. Roedd Dilys yn Drysorydd hynod o effeithiol ers rhai blynyddoedd bellach. Roedd dau wedi bod yn eu swyddi ers tipyn mwy na bum i'n swyddog – ac yn dal ati! Dau lolo fel mae'n digwydd, lolo Roberts yn Ysgrifennydd Cyffredinol dibynadwy sy'n llwddo i gadw trefn arnom ac lolo ap Gwynn, sy'n gwneud y gwaith disylw o gynnal y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol sydd mor bwysig i ledu'r neges am y clwb. Roedd bob amser yn barod i newid a diweddarau ar fyr-rybudd os oes angen.

Cynhaliwyd o leiaf 61 o deithiau ers Cyfarfod Cyffredinol 2021, 11 yn y de a 12 o deithiau dydd Mercher. Diolchodd i Dewi a Haf am drefnu'r teithiau hynny. Daeth 46 ar daith yr Eisteddfod o Ystrad Fflur i Llynnoedd Teifi a llawer ohonom yn troedio'r tir yma am y tro cyntaf ac yn cael profi cymaint sydd gan Gymru i'w gynnig y tu hwnt i'r mynyddoedd adnabyddus. Nododd ei fod yn fwriad i ddynodi taith flynyddol wythnos y brifwyl yn Daith Goffa Gareth Pierce. Bu Darlith Goffa Llew Gwent yn llwyddiant unwaith eto a phawb – wel, pawb a lwyddodd i gael lle – wedi mwynhau sgwrs Caradog Jones yn fawr iawn.

Trefnwyd penwythnos o hyfforddiant gan yr Urdd yng Nglan-Ilyn ddiwedd Medi i 11 o bobl ifanc y neu harddegau canol o bob cwr o Gymru gan ddefnyddio rhan o'r arian a gyfranwyd er cof am Gareth Pierce. Bu'n llwyddiant ac mae bwriad i drefnu hyfforddiant tebyg yn y dyfodol.

Trefnwyd dau ymweliad â'r Alban, i Crianlarich ym mis Chwefror ac i Drumnadrochit ger Inverness ym mis Mai. Diolchodd i Gareth Everett Roberts am drefnu'r rheiny. Gan fod y Crianlarich Hotel yn cynnig llety mor gysurus a bod y pentref yn ganolfan mor hwylus, penderfynwyd dychwelyd yno am y trydydd tro fis Chwefror nesaf.

Roedd yn hyderus y bydd Ysgrifennydd Gweithgareddau newydd yn cael ei benodi yn y Cyfarfod Cyffredinol a fydd yn gaffaeliad di-os i'r clwb. Gwn y byddwch yr un mor barod eich cefnogaeth i'r swyddog newydd ac y buoch i mi.

Diweddodd ar nodyn cadarnhaol o nodi bod cynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau iau sydd wedi ymaelodi a cherdded yn rheolaidd, a'r rhai hynny'n fynyddwyr a mynyddwagedd o'r iawn ryw. Credai fod dyfodol y y clwb yn ddiogel!

Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i Eryl am ei waith diwyd yn trefnu rhaglen weithgareddau

Talwyd teyrnged i Eryl gan y Cadeirydd ar ran y aelodau a chan nifer o aelodau eraill am ei holl waith gwerthfawr a diwyd dros y blynyddoedd yn trefnu a chydgordio rhaglen weithgareddau'r Clwb mewn modd threfnus ac effeithlon ac fe gyflwynodd Steve lun o Gader Idris (un o'i hoff fynyddoedd) i ddangos y gwerthfawrogiad hyn ac i ddiolch iddo am ei holl waith.

8. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Cafwyd adroddiad gan Iolo ap Gwynn ar faterion gwefan y Clwb

Adroddodd ar y canlynol :

Bu'r flwyddyn ers Tachwedd 2021 yn un eithaf prysur i'r Clwb a chofnodwyd hanesion tua 66 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/Facebook yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Roedd hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddarau'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf. Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal a porwyr ar bob math o gyfrifiaduron. Mae'r 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadau iOS ac Android, a luniwyd gan Rhys Jones, yn dal yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan. Diolchodd i bawb wnaeth ddanfon adroddiadau am hanes y teithiau gyda lluniau gwych.

Atgoffodd fod tudalen Newyddion ar y wefan ac fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau – gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw hanes allai fod o ddiddordeb. Cofnodir manylion defnydd pob rhan o wefan y Clwb gan Google Analytics. Golyga hyn fod gennym wybodaeth hynod o gyflawn o sut mae'r wefan yn cael ei defnyddio, gyda dadansoddiad manwl o natur y defnyddwyr (ond dim manylion personol ar gael) gan gynnwys yr offer a ddefnyddi

Ers Tachwedd 2021, bu 46,849 ymweliad â'r wefan gan 5,077 o ddefnyddwyr (y rhan fwyaf o'r DG a nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn ac yn pegynnu pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb.

Mae ein cyfrifon Gweplyfr / Facebook, Trydar / Twitter ag Instagram yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan. Cyhoeddir y Rhaglen a hanesion pob gweithgaredd ar ein gwefan – ynghyd â doler i unrhyw adroddiad ar y wefan ar y Gweplyfr / Facebook. Gall unigolion hefyd ychwanegu eu lluniau neu sylwadau eu hunain at rhain, yn ogystal a'r cyfrifion Trydar ag Instagram.

Roedd yn siomedig braidd mai dim ond tua 21% o'n defnyddwyr gwefan sydd wedi gosod eu cyfrifiaduron i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg – er fod hyn bellach yn rhwydd i'w osod.

Gofynnodd i bawb ddal ati i gefnogi ein gwefan a thudalennau gwefannau cymdeithas

9. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2023:

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Richard Roberts

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

Trysorydd: Dilys A Phillips

10. Ethol Is-Gadeirydd

Etholwyd Elen Huws i wasanaethu fel Is-Gadeirydd y Clwb

11. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2023

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth bod angen i'r Cyfarfod Blyneddol gadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2023. Roedd swyddogion y Clwb ar gyfer 2023 eisoes wedi eu hail-ethol yn y cyfarfod ac hefyd roedd yna Gadeirydd newydd (Stephen Williams) a Is-gadeirydd newydd (Elen Huws) wedi eu hethol.#

Yn ôl y cyfansoddiad bydd traean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf, sef:

Iona Evans
Iolo ap Gwynn
Iolo Roberts
Eryl Owain.

Roedd Iolo ap Gwynn a Iolo Roberts am barhau ar y Pwyllgor tra byddai Iona ac Eryl yn ymddeol. Roedd enwau Ariannell Parry a Gethin Rowlands wedi eu rhoi gerbron i wasanaethau ar y Pwyllgor yn 2023.

Cytunwyd

i. yn sgil y wybodaeth uchod y bydd aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2023 fel a ganlyn:

Cadeirydd

Stephen Williams

Is-gadeirydd

Elen Huws

Aelodau

Raymond Griffiths
Dewi Hughes

Dwynwen Pennant
Sioned Ll Jones
Keith Roberts
Ariannell Parry
Gethin Rowlands

Swyddogion

Dilys A Phillips	Trysorydd
Richard Roberts	Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn	Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts	Ysgrifennydd Cyffredinol

- ii. nodi gwerthfawrogiad a diolch i Eryl a Iona am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor a'r Clwb.
- iii. croesawu'r ffaith fod yna 2 aelod o'r to fwy iau yr aelodaeth wedi ymuno a'r Pwyllgor

12 Archwilydd

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

13. Unrhyw Fater Arall

Codwyd y materion canlynol:

- i. awgrym y gellid cynnal y Cyfarfod a Cinio Blynyddol ar noson yn ystod yr wythnos e.e nos Wener heb gael taith yn gysylltiedig a'r digwyddiad – gan Gwyn Williams (Llanrwst)
- ii. syniad o gynnal y Cyfarfod Blynyddol mewn safle yn y Canolbarth gyda'r gobaith y gellid denu aelodau o'r de a gogledd iddo – gan Mark Williams
- iii. gyrru neges i atgoffa aelodau i gofrestru eu ffonau symudol hefo rhif argyfwng 999 fyddai yn cynorthwyo i gysylltu â'r gwasanaethau brys mewn argyfwng – gan Sian Shakespear

Cytunwyd cyfeirio y materion uchod i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd Steve i bawb am fynychu agobeithio y byddai pawb yn mwynhau eu cinio a chymdeithasu hefo cyd aelodau. Dymunodd yn dda i bawb dros y Nadolig a mynegodd y gobaith y byddai pawb yn cael hwyl ar y mynydda yn 2023.

